

Minutes



Cyfarfod Cysylltu gyda Chynghorau Cymuned

Date: Dydd Iau, 16 Chwefror 2023

Time: 6.00 pm

Present: Councillors

Elizabeth Bryant (Head of Law and Standards (Chair), Leanne Rowlands (Democratic and Electoral Services Manager), Pamela Tasker (Governance Support Officer), Cath Davies (Marshfield), Mandy George (Llanwern), Councillor Yvonne Forsey (Rogerstone West), Councillor Bev Davies (Rogerstone East), Councillor John Reynolds (Rogerstone West).

1 Ymddiheuriadau

Patricia Appleton Cyngor Cymuned Graig

2 Cofnodion y cyfarfod blaenorol: 20 Hydref 2022

Cadarnhawyd bod cofnodion y cyfarfod diwethaf yn gywir.

3 Rôl y Pwyllgor Safonau

Cafodd Cynrychiolwyr y Cynghorau Cymuned gyflwyniad gan y Rheolwr Gwasanaethau Democraataidd ac Etholiadol.

Prif Bwyntiau:

- Mae 5 aelod annibynnol, Cadeirydd annibynnol, 3 aelod Cynghorydd, ac 1 cynrychiolydd y cynghorau cymuned ar y Pwyllgor Safonau.
- Y Cadeirydd sy'n arwain y Pwyllgor, yn ei rôl o hyrwyddo a chynnal safonau ymddygiad uchel gan gynghorwyr ac aelodau cyfetholedig.
- Mae'r Pwyllgor yn sicrhau manylder a gwrthrychedd, gan dderbyn ac ymateb i gyngor proffesiynol ar y Cod Ymddygiad.
- Un o'i rolau eraill yw rheoli cyfarfodydd yn hyderus ac yn effeithiol i hwyluso cynhwysiant, cyfranogiad a gwneud penderfyniadau eglur.
- Diwygiwyd Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 i ymestyn swyddogaethau'r Pwyllgor Safonau yn y ffordd y mae'n gweithredu gyda dyletswydd nawr i fonitro cydymffurfiaeth yr arweinydd grŵp, gyda cheisiadau i'r arweinydd grŵp ddod yn ôl i'r pwyllgor gydag adroddiad ynghylch cyngor a hyfforddiant.
- Roedd gan y Pwyllgor Safonau ddyletswydd hefyd i ddarparu adroddiad blynyddol.
- Rôl y Swyddog Monitro / Dirprwy Swyddog Monitro oedd cynghori'r Pwyllgor Safonau, gan sicrhau cydymffurfiaeth â gofynion statudol,

datrys 'cwynion lefel isel' yn ogystal ag ymchwilio i gwynion a gyfeiriwyd gan yr Ombwdsmon.

- Mae Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn ymchwilio i bob cwyn ffurfiol am dorri'r Cod gydag unrhyw achosion difrifol o dorri rheolau yn cael eu hadrodd yn ôl i'r Pwyllgor Safonau neu Dribiwnlys Achos Panel Dyfarnu Cymru.
- Gall aelodau a gosbwyd apelio a gall y Pwyllgor atal Aelod am flwyddyn, neu gall gael ei wahardd am hyd at 5 mlynedd.

Cwestiynau:

Gofynnodd y Cynghorydd Reynolds a oedd y Pwyllgor Safonau yn cyfarfod yn rheolaidd. Cadarnhawyd bod y Pwyllgor Safonau yn cyfarfod bob deufis, a byddai Cadeirydd y Pwyllgor Safonau yn cael ei wahodd i Gyfarfod Cyswllt Cynghorau Cymuned yn y dyfodol i drafod y gwaith yr oedd y Pwyllgor Safonau wedi'i gwblhau yn ystod y 12 mis diwethaf. Roedd cynrychiolydd o'r Cynghorau Cymuned, Mr John Davies hefyd yn aelod o'r Pwyllgor Safonau.

4 Rôl y Cynghorau Cymuned

Cyflwynodd y Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd ac Etholiadol yr eitem hon i Gynrychiolwyr y Cynghorau Cymuned.

Prif Bwyntiau:

- Mae 735 o gynghorau cymuned yng Nghymru gyda 94% o arwynebedd tir ac maen nhw'n cynrychioli cymunedau o rhwng 200 o bobl i 50,000 o drigolion ac maent yn gyswllt rhwng prif gynghorau a chynghorau cymuned.
- Caiff cynghorwyr cymuned a thref eu hethol (neu weithiau eu cyfethol) i gynrychioli barn pobl leol.
- Yn Lloegr fe'u gelwir yn Gynghorau Tref.
- Sefydlwyd Cynghorau Cymuned o dan Ddeddf Llywodraeth Leol 1972. Diwygiwyd darpariaeth Cymru gan Ddeddf Llywodraeth Leol (Cymru) 1994 a Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 gyda'r diweddaraf yn 2021.
- Y brif ffynhonnell ariannu ar gyfer cynghorau cymuned yw'r arian a godir drwy'r hyn y cyfeirir ato fel praesept (tâl) i'r dreth gyngor o dan adran 41 o **Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992**.
- Cyflwynodd Deddf Llywodraeth Leol 2000 drefn safonau newydd ar gyfer cynghorau cymuned. O dan Ddeddf Llywodraeth Leol 2000, gall Gweinidogion Cymru drwy orchymyn nodi'r egwyddorion sydd i lywodraethu ymddygiad aelodau cynghorau cymuned a gallant gyhoeddi Cod Ymddygiad enghreifftiol y mae'n rhaid i aelodau ei arsylwi.
- Mae rolau a chyfrifoldebau'r Cynghorau Cymuned yn cynnwys:
 - Cefnogi eu cymunedau i gael llais
 - Cynllunio
 - Parciau, caeau chwarae a mannau agored
 - Codi adnoddau i'r gymuned.

- Rhaid i'r Cyngor Cymuned benodi Cadeirydd, penodi swyddogion a phenodi swyddog ariannol cyfrifol - gellir dewis y Clerc i wneud y swydd hon.
- Mae'r archwilydd mewnol hefyd yn cynnal Cyfarfod Blynyddol o'r Cyngor.

Mae'r dyletswyddau'n cynnwys:

- Rhwymedigaethau o dan Ddeddf Diogelu Data 1998 i gyhoeddi'r gofrestr buddiannau.
- Cydymffurfio â'r gyfraith gyffredinol.
- Cynnal cyfarfodydd hybrid rheolaidd sy'n agored i'r cyhoedd a rhoi digon o rybudd ymlaen llaw o'r cyfarfodydd sy'n cael eu cynnal.
- Ystyried effaith eu penderfyniadau ar leihau trosedd ac anhrefn yn eu hardal.
- Darparu rhandiroedd os yw'r cyngor o'r farn bod galw amdanynt gan drigolion lleol a'i bod yn rhesymol gwneud hynny.
- Rhoi sylw i warchod bioamrywiaeth wrth gyflawni eu swyddogaethau.
- Cael gwefan sy'n hygyrch i'r cyhoedd.

Mae Rôl Cynghorwyr yn cynnwys:

- Mynychu cyfarfodydd cyngor cymuned pan gânt eu galw i wneud hynny.
- Paratoi ar gyfer cyfarfodydd drwy astudio'r agenda a sicrhau eich bod yn cael eich hysbysu'n iawn am faterion i'w trafod, cymryd rhan mewn cyfarfodydd a ffurfio barn wrthrychol yn seiliedig ar yr hyn sydd orau i'r gymuned ac yna i gadw at benderfyniadau mwyafrifol.
- Sicrhau, gyda chynghorwyr eraill, fod y cyngor yn cael ei reoli'n iawn.
- Gweithredu ar ran yr holl etholwyr yn gyfartal
- Cynnal safonau ymddygiad priodol fel cynrychiolydd etholedig o'r bobl.
- Mae gan gynghorwyr 3 phrif gydran: Gwneud penderfyniadau, monitro a chymryd rhan yn lleol. Gall hyn ddibynnu ar yr hyn y mae cynghorau cymuned am ei gyflawni.

Mae cynghorwyr yn rhwym wrth God Ymddygiad sy'n amlinellu pa ymddygiad a ddisgwylir ganddynt bob amser yn eu rôl fel Cynghorydd.

Mae egwyddorion allweddol y Cod yn cynnwys:

- Cydraddoldeb, Didueddrwydd, Trin eraill â pharch, gweithredu er budd y cyhoedd, bod yn agored i graffu ar y cyhoedd yn ogystal ag arwain eraill drwy esiampl a bod yn esiampl cadarnhaol i eraill.
- Os bydd unrhyw achosion o dorri'r Cod Ymddygiad ar gyfer aelodau etholedig, gall yr Ombwdsmon eu hystyried.
- Mae Egwyddorion Nolan yn darparu cod ymddygiad i hyrwyddo'r safonau uchaf posibl yn seiliedig ar Onestrwydd, Anhunanoldeb, Bod yn Agored, Uniondeb, Dyletswydd i Cynnal y Gyfraith, Atebolrwydd ac Arweinyddiaeth ac mae'r rhain yn tynnu ar y 7 Egwyddor Bywyd Cyhoeddus a nodwyd gyntaf ym 1995.

Mae'r Egwyddorion yn cynnig sylfaen gadarn ar gyfer ymddygiad yr Aelodau ac mae'r Aelodau'n cael eu hannog i'w hystyried bob amser.

Rhan allweddol o hyn oedd cyswllt y cyngor a'r rôl gefnogol a gynigir gan y Tîm Gwasanaethau Democrataidd.

Darparwyd cyfeiriad e-bost y Tîm Gwasanaethau Democrataidd i'r Cynghorau Cymuned: democratic.services@newport.gov.uk a oedd bob amser yn cael ei staffio yn ystod oriau swyddfa a gallai'r tîm roi cymorth ac arweiniad.

Darparwyd dolenni defnyddiol ar ddiwedd y cyflwyniad gan gynnwys y ddolen ar gyfer Un Llais Cymru a oedd yn cynnig canllawiau ac offer ar eu gwefan, y ddolen ar gyfer y

Cod Ymddygiad ar gyfer Cynghorwyr Cymuned ar wefan yr Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus yn ogystal ag Asesiad cynghorau cymuned a thref yng Nghymru.

Cam Gweithredu:

Y Swyddog Cymorth Llywodraethu i anfon y sleidiau o'r ddau gyflwyniad at Glercod y Cynghorau Cymuned.

5 Diogelu Swyddogion sy'n cyflawni eu dyletswydd gyhoeddus

Dywedodd cynrychiolydd Gwynllŵg fod Cadeirydd blaenorol Gwynllŵg wedi bod yn delio â thipio anghyfreithlon ar eu tir.

Esboniodd Cynrychiolydd Maerun fod y tîrfeddiannwr newydd yn ardal Gwynllŵg wedi rhoi giât ar draws yr hawl tramwy ar lwybr. Aeth y mater i Penderfyniadau Cynllunio ac Amgylcheddol Cymru (PCAC) a'r Arolygydd Cynllunio i wneud penderfyniad. Honnwyd bod tîrfeddiannwr penodol y gymuned wedi bygwth y Cadeirydd, ac roedd cyfarfod cymunedol diwethaf Gwynllŵg lle'r oedd y Tîrfeddiannwr dan sylw wedi mynychu yn anodd, ac roedd yn gyfarfod anodd ei lywodraethu. Roedd Cadeirydd Gwynllŵg wedi derbyn bygythiadau ac roedd difrod wedi'i wneud i'w eiddo ac ni chafodd gefnogaeth gan yr Heddlu.

Trafodwyd nad oedd yr Heddlu fel arfer yn mynychu cynghorau cymuned yn bersonol, a oedd yn anffodus, fodd bynnag, roedd yr Heddlu'n cefnogi cymorthfeydd yr heddlu.

Trafododd cynrychiolwyr y Cynghorau Cymuned p'un a ddylid galw'r Heddlu yn y sefyllfaoedd hynny lle mae cyfarfodydd cyngor cymuned yn mynd yn afreolus gan nad oedd cynghorau cymuned yn derbyn unrhyw hyfforddiant i ddelio â'r mathau hynny o sefyllfaoedd. Mynegwyd fod y sefyllfa hon yn atal pobl rhag ymuno â Chyngor Cymuned. Mae Cynghorau Cymuned wedi ceisio ymgysylltu â'r cyhoedd i geisio annog mwy o bobl i ymuno â chynghorau cymuned. Fodd bynnag, os yw pobl yn teimlo y byddent yn cael eu bygwth ni fyddent yn ymuno.

Cytunodd y Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd ac Etholiadol ei bod yn sefyllfa heriol ond bod cefnogaeth dda ar gael trwy CLILC. Trafodwyd y gellid darparu canllawiau i gynghorau cymuned mewn cyfarfod yn y dyfodol ac y gallai cynrychiolydd yr Heddlu fynychu cyfarfod cyngor cymuned yn y dyfodol o bosibl.

Dywedodd cynrychiolydd Maerun fod angen i gynghorau cymuned ymgysylltu â'r Heddlu a chyfleu'r neges eu bod nhw, fel Cynghorwyr Cymuned, yn yr ardal gyhoeddus ac y gallen nhw hefyd fod mewn perygl. Dywedodd Cynrychiolydd Maerun fod Cynghorydd arall, C. Roberts, wedi bod yn y cyfarfod dan sylw ac wedi dweud ei fod yn eithaf brawychus. Dywedodd y Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd ac Etholiadol y gellid cael trafodaethau gyda Chynghorau Cymuned Maerun a Gwynllŵg y tu allan i'r cyfarfod ar y mater hwn.

Trafodwyd bod Cadeirydd blaenorol Cyngor Cymuned Gwynllŵg yn gadeirydd gweithgar iawn, a gallai'r digwyddiadau hyn ei gwneud hi'n anoddach cael pobl i ymuno â chynghorau cymuned ac yn anodd eu cadw.

Dywedodd cynrychiolydd Maerun fod cynghorwyr y ddinas hyd yn oed yn fwy agored i niwed heb unrhyw reolaeth dros bwy sy'n dod i gyfarfod cyngor cymuned cyhoeddus.

Dywedodd y Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd ac Etholiadol fod natur rolau'r cynghorau cymuned yn ymwneud ag ymgysylltu yn y gymuned. Bydd canllawiau CLILC yn cael eu cyflwyno i Gynghorau Cymuned ar gyfer y cyfarfod nesaf.

Dywedodd y Cynghorydd Reynolds fod yr hyn yr oedd Cynrychiolwyr Maerun wedi'i ddisgrifio yn peri gofid a bod hynny wedi rhwystro pobl rhag ymuno â chynghorau cymuned ac na chafwyd unrhyw beth fel y lefel honno o fygythiadau yn ei gyfarfod cyngor cymuned ef, ond roedd wedi bod yn bresennol mewn cyfarfodydd blaenorol lle'r oedd pobl wedi bod yn angerddol eu barn. Dywedodd y Cynghorydd Reynolds mai'r gwahaniaeth mawr gyda chyfarfod cyhoeddus mewn cynghorau cymuned hefyd oedd y gallai pobl fod yn bresennol ac y gallent fod yn rhan o'r cyfarfod a chyfrannu at y cyfarfod a gofynnodd lle mae'r llinell yn stopio gyda chyfranogiad y cyhoedd gan ei fod yn anodd ei reoli ar adegau. Fodd bynnag, roedd ymgysylltu â'r heddlu mewn ffordd gadarnhaol yn bwysig.

Dywedodd Cynrychiolydd Maerun fod yr Heddlu wedi ymddiheuro am gyfarfod cynghorau cymuned blaenorol ac mewn Cymhorthfa Heddlu blaenorol dywedodd y sarsiant nad oedd eisiau parhau i gynnal cymorthfeydd gan ei fod yn teimlo bod amser Swyddog Cymorth Cymunedol yr Heddlu yn cael ei dreulio'n well mewn manau eraill. Nododd Cynrychiolydd Maerun mai ward Maerun oedd â'r boblogaeth fwyaf, ac roedd yn bwysig cael y gymhorthfa heddlu hon ac roedd wedi newid o gyfarfod misol i bob yn ail fis.

Dywedodd y Cynghorydd Reynolds bod yr Heddlu bob amser yn mynychu'r Cyngor llawn lle mae'r heddlu'n siarad ar ddechrau'r cyfarfod ac mae Materion yr Heddlu bob amser yn eitem 3 ar yr Agenda.

Awgrymodd Pennaeth y Gyfraith a Safonau y gallai'r mater o'r Heddlu'n mynychu cynghorau cymuned gael ei godi gyda'r aelod etholedig o'r ward ac yna gellid ei godi yn fforwm yr Heddlu yn rhan o eitem Cwestiynau'r Heddlu yng nghyfarfod y Cyngor.

Gwnaeth y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd ac Etholiadol sylwadau ar sut yr oedd pob cyngor cymuned yn ymdrin â chyfranogiad y cyhoedd mewn cyfarfodydd.

Dyweddodd Cynrychiolydd Maerun fod Llan-bedr Gwynllŵg ger cymuned fawr felly roedd hyn yn broblem iddyn nhw, ond doedd gan gynghorau eraill ddim yr un problemau.

Dyweddodd y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd ac Etholiadol efallai na fydd dull a oedd yn gweithio mewn un ardal yn gweithio mewn un arall oherwydd demograffeg a daearyddiaeth.

Dyweddodd y Cynghorydd Forsey fod ymgysylltiad da gan yr heddlu yn Nhŷ-du ac roedd presenoldeb yr Heddlu mewn cyfarfodydd cymunedol yn eithaf rheolaidd, ond roedd wedi llithro i bob yn ail fis. Yn yr ardal darparwyd diweddariadau rheolaidd gan yr heddlu i gynghorwyr y ddinas gyda chyfarfodydd ar gyfer Shaftsbury, Tŷ-du a Betws gyda 3 chyfarfod wedi cael eu cynnal hyd yn hyn.

Dyweddodd Cynrychiolydd Maerun fod gan dîm plismona Gorllewin Casnewydd 8 SCCH ond nad oedd yn siŵr faint o ardaloedd yr oedden nhw'n eu cwmpasu. Pan oedd Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu yn bresennol mewn cyfarfodydd Cynghorau Cymuned roedden nhw'n dweud nad Swyddogion Heddlu ydyn nhw felly doedden nhw ddim yn gallu helpu ond fe wnaethon nhw addo diweddariadau gan yr heddlu, ond dydyn nhw ddim wedi cael unrhyw adborth. Roedd yr adborth a gafwyd yn ôl wedi bod yn anghyson gyda rhifau ffôn wedi'u darparu ond gyda chyfarwyddiadau i alw mewn argyfwng yn unig. Roedd problemau wedi bod gyda fandaliaid yn neuadd y pentref ac roedd hi'n hawdd adrodd ar Facebook, ond roedd gan yr Heddlu adnoddau cyfyngedig.

Dyweddodd y Cynghorydd Davies fod Tŷ-du yn cael cyfarfodydd misol yr heddlu a nododd ei bod yn syniad da gweld eu cynghorydd dinas yn derbyn mwy o wybodaeth gan yr Heddlu i weld beth allen nhw ei wneud yn yr ardal. Mae'r cyngor cymuned wedi cael 3 chyfarfod misol sydd wedi bod yn dda iawn, a dydyn nhw ddim wedi cael yr un digwyddiadau â Maerun. Dywedodd Pennaeth y Gyfraith a Safonau y gellid gwahodd swyddog o'r Tîm Iechyd a Diogelwch i gyfarfod yn y dyfodol i gynorthwyo i gwblhau asesiadau risg ar gyfer Cynghorau Cymuned. Trafodwyd bod camau y gallai cynghorau cymuned eu cymryd pe bai'r cyfarfodydd yn dod yn anodd megis galw cyfarfod i ben pe bai person trafferthus yn mynychu. Gellid edrych ar opsiynau eraill ac roedd asesiad risg yn lle da i ddechrau. Dywedodd Cynrychiolydd Maerun fod yr ystafell yr oedd cyfarfodydd y cyngor cymuned yn cymryd lle ynndi yn ystafell anodd i fynd allan ohoni os oedd rhywun yn dreisgar ac nad oedd llwybr dianc gyda dim ond un allanfa oedd yn peri pryder yn y digwyddiadau hynny.

Camau Gweithredu:

- Cysylltu â chynghorau cymuned Gwynllŵg a Maerun i drafod materion yn eu wardiau.
- Rhannu gwybodaeth a chanllawiau ar ddiogelwch personol gyda chynghorau cymuned.
- Cynghorwyr Cymuned i godi'r mater o'r Heddlu'n mynychu cyfarfodydd y Cyngor Cymuned gyda'r aelod etholedig o'r ward a allai godi'r mater yn fforwm yr Heddlu yn eitem Cwestiynau'r Heddlu yng nghyfarfod y Cyngor.
- Gwahodd yr Heddlu i ddod i gyfarfod nesaf y cynghorau cymuned.

- Edrych ar ganllawiau a chymorth penodol Casnewydd a gofyn i bob cyngor cymuned weld sut maent yn gwahodd y cyhoedd i'w cyfarfodydd.
- Cwblhau asesiadau risg ar gyfer pob cyngor a gwahodd y tîm iechyd a diogelwch i'r cyfarfod nesaf.

6 dyddiad y cyfarfod nesaf

Mae cais wedi ei wneud i Cymorth Cynllunio Cymru gynnal sesiwn ymgysylltu gyda Chynghorau Cymuned i ymgynghori â nhw ar y Cynllun Datblygu Lleol. Dechreuodd yr ymgynghoriad cyhoeddus ar 25 Ionawr 2023. Y gobaith oedd y byddai hyn yn cael ei drefnu cyn 8 Mawrth felly byddai dyddiad yn cael ei bennu maes o law.

Byddai dyddiad y cyfarfod nesaf hefyd yn cael ei bennu maes o law gyda nodyn atgoffa i gynghorau cymuned fod y cyfarfod Cyswllt bellach yn un hybrid a gallai cynrychiolwyr cynghorau cymuned fynychu o bell neu yn bersonol.

Atgoffwyd y Cynghorau Cymuned o gyfeiriad e-bost y Gwasanaethau Democraidd democratic.services@newport.gov.uk os bydd angen unrhyw gymorth arnynt. Hefyd, darparodd Pennaeth y Gyfraith a Safonau ei chyfeiriad e-bost hi,

Elizabeth.Bryant@newport.gov.uk

Roedd eitemau agenda'r cyfarfod nesaf yn cynnwys:

- Swyddog Iechyd a Diogelwch a chynrychiolydd yr Heddlu i fynychu'r cyfarfod Cyswllt Cymunedol.
- Y Cadeirydd Safonau i fynychu'r cyfarfod nesaf.

Yn y cyfarfod nesaf byddai'r Adroddiad Blynyddol y bu'n rhaid i Gynghorau Cymuned ei gwblhau yn cael ei drafod. Roedd hon yn ddogfen newydd eleni y bu'n rhaid i gynghorau cymuned ei chynhyrchu oedd yn rhan o'r ddeddfwriaeth dan y Ddeddf Llywodraeth Leol. Byddai adolygiad o hyn yn y cyfarfod nesaf yn ogystal â thrafodaeth ynghylch cynnwys yr adroddiad a faint o fanylion sydd eu hangen.

Darparodd Un Llais Cymru ganllaw ar gyfer y Ddeddf Llywodraeth Leol a oedd yn mynd i fanylder a byddai sesiwn frifio'n cael ei llunio ar gyfer cynghorau cymuned ar gyfer y cyfarfod nesaf. Mae'r ddolen fel a ganlyn:

[Canllawiau Statudol ar gyfer Cynghorau Tref a Chymuned Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau \(Cymru\)](#)

7 Digwyddiad Byw